Asiantaeth Ffilm Cymru: Strategaeth Gŵyl Ffilmiau Cymru a Chanllawiau Ymgeisio

Cyflwyniad

Yn unol â'r bwriad yn ein strategaeth arddangos wreiddiol, mae Asiantaeth Ffilm Cymru wedi bod yn adolygu gweithgaredd gwyliau ffilm ledled Cymru o'r dechrau, ac yng nghyd-destun strategaeth Brydeinig gŵyl ffilm yr UK Film Council 'rydym yn cyflwyno ein strategaeth gŵyl ffilm ddiwygiedig. Yn y ddogfen hon gwelir ein hamcanion a'n blaenoriaethau ariannu ar gyfer 'Cronfa Gŵyl Ffilm' yr Asiantaeth Ffilm, a gynlluniwyd i fod o gymorth i wyliau hen a newydd sefydlu neu ehangu eu maint, eu cyrhaeddiad a'u huchelgais.

Diffiniad o Ŵyl

> '*Gweithgaredd sy'n digwydd yn flynyddol, neu bob dwy flynedd, neu'n llai aml, sy'n cynnig dangos ffilmiau neu raglen ffilm na fyddai fel arall ar gael i'r boblogaeth leol na chenedlaethol. Mae'n cynnwys digwyddiadau sy'n berthnasol i'r ŵyl e.e. trafodaeth, beirniadaeth, siaradwyr gwadd ayb. Mae'r nodweddion hyn yn creu ymdeimlad o achlysur/amser/lle ac yn creu awyrgylch unigryw o gynnwrf, o gyffro ac o ddysgu bydd, dros gyfnod o amser, yn treiddio i hunaniaeth yr ŵyl.*'

Ariannu

Mae'r Gronfa Gŵyl Ffilm mewn cysylltiad â'r Gronfa Prosiect Arddangos Ddewisol newydd ar gyfer gweithgaredd arddangos nad yw'n perthyn i ŵyl (gweler y canllawiau ar wahân), yn disodli'r llinyn blaenorol ar gyfer arian Arddangos Prosiect, ac mae ar agor i geisiadau gan bob un o wyliau ffilm Cymru, heblaw'r Digwyddiad Ffilm Rhyngwladol a ariennir drwy ddulliau eraill.
Bydd y canlynol ar gael bob blwyddyn o'r gronfa ŵyl ffilmiau:

- Dyrennir cyfanswm o £45,000 i wyliau sydd, neu sydd ym marn yr Asiantaeth Ffilm, â'r potensial i fod o arwyddocâd cenedlaethol (Llinyn 1). Bydd cap o 75% yn cael ei roi ar y gyllideb gyfan, neu £15k bob gŵyl, beth bynnag yw'r swm isaf;

- Dyrennir cyfanswm o £15,000 i wyliau sydd o arwyddocâd **lleol/neu ranbarthol** (Llinyn 2). Bydd cap o 75% o'r gyllideb gyfan yn cael ei roi, neu £5k bob gŵyl, beth bynnag yw'r swm isaf.

Amcanion Asiantaeth Ffilm Cymru:

Mae strategaeth ŵyl Asiantaeth Ffilm Cymru wedi'i chynllunio i gefnogi trefnwyr gwyliau ffilm, gan eu galluogi i sefydlu, cynnal a chadw ac ehangu gweithgaredd eu gŵyl.

Byddwn yn cynnig adfocatiaeth, cyngor a chymorth i'r gwyliau, gan gynnwys y rheiny fydd efallai'n awyddus i wneud cais am arian o Gronfa Gŵyl yr UKFC, a/neu sydd am greu rhwydweithiau a chynghreiriau yng Nghymru a thu hwnt.

Byddwn yn gwrando ar, yn adnabod ac yn deall anghenion a dymuniadau'r sector gwyliau wrth fynd ymlaen.
Yn y cyswllt hwn 'rydym yn cynnig hyrwyddo sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr gwyliau ledled Cymru er mwyn cynnal trafodaethau ar bynciau perthnasol, ac i drafod ymarfer gorau. Gall hon fod yn fforwm i'r gwyliau ddod ynghyd i ddysgu, rhannu gwybodaeth a datblygu mentrau.

- Blaenoriaeth yr Asiantaeth yw hybu diwylliant ffilm bywiog a deinamig, drwy hwyluso mynediad i ac ehangu'r amrywiaeth o ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru;

- Hyrwyddo amrediad ac ehangu nifer y gwyliau sydd ar gael ledled Cymru, ac ar gyfer cynulleidfaoedd ehangach;

- Gwella gwerth darpariaeth y gwyliau sydd eisoes yn bodoli, a hybu cydweithrediad, creu partneriaethau a rhwydwaith o arddangoswyr er mwyn cynnig y cyfle a'r mynediad gorau posib i gynulleidfaoedd**;**

- Byddwn hefyd yn annog pob gŵyl i edrych am amrywiaeth o nawdd yn y blynyddoedd nesaf fel nad ydynt mor ddibynnol ar un noddwr penodol;

'Rydym yn cydnabod fod gwyliau ffilm, gyda'i gilydd, yn cyfrannu'n enfawr tuag at brif fwriad Asiantaeth Ffilm Cymru o ehangu'r amrywiaeth o ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru.

Trosolwg ar Natur yr Ŵyl Ffilm yng Nghymru.
Ar hyn o bryd mae 16 gŵyl ffilm flynyddol o amrywiol fathau yn cael eu cynnal ledled Cymru. Maent yn amrywio o ran maint, uchelgais, ffocws a math, er bod y mwyafrif yn lleol ac yn cynnig amrywiaeth gyfoethog i'r gynulleidfa yn eu hardal benodol hwy. Mae nifer o'r gwyliau hyn wedi ceisio cydweithio ar raglenni ac addysg yn ogystal â datblygu eu pwynt gwerthu unigryw eu hunain, ac mae nifer ohonynt yn teithio i sawl ardal gyda'u rhaglenni.

Mae'r Gronfa Gŵyl Ffilm wedi ei hanelu at ddyrchafu uchelgais, cyrhaeddiad daearyddol a chynyddu'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n mynychu'r gwyliau hyn, sydd ar hyn o bryd, neu sydd â'r potensial i fod, o arwyddocâd lleol a chenedlaethol.

Gwerthoedd
Mae'r Asiantaeth Ffilm yn dymuno gosod meini prawf clir ar gyfer pob gŵyl, sydd hefyd yn addas ar gyfer y peirianwaith ariannu cyffredinol 'rydym yn ei ddefnyddio, ac sydd hefyd yn gydnaws â strategaeth gŵyl Brydeinig yr UKFC - anogir gwyliau sydd o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol i wneud cais i'r corff hwn.

Mae'r Asiantaeth yn cydnabod fod pob gŵyl yn cynnwys rhai, neu bob un, o'r gwerthoedd canlynol, ond nid ydym yn disgwyl i'r gwyliau arddangos yr holl werthoedd hyn.

Llinyn 1 – Gwyliau o Arwyddocad Cenedlaethol

Dylai gwyliau sy'n gwneud cais i'r llinyn hwn ddarparu **cynllun busnes 3 blynedd** yn amlinellu gweledigaeth y gwyliau ar gyfer y dyfodol a'u pwynt gwerthu unigryw eu hunain, a rhaid iddynt arddangos o leiaf 4 o'r meini prawf canlynol:

- Cyrhaeddiad daearyddol arwyddocaol ledled Cymru, gan gynnwys defnyddio nifer o leoliadau i ddangos ffilmiau nad ydynt ar gael yn gyhoeddus fel arall;
- Perthnasau cydweithio gyda sefydliadau addas eraill o Gymru, a/neu o rywle arall ym Mhrydain neu o dramor;
- Cynulleidfaoedd amrywiol;
- Datblygiad Cwmni/Ffocws Diwydiant clir A/NEU symbylu trafodaeth ddiwylliannol arwyddocaol, yn benodol gan ddefnyddio mewnbwn gan siaradwyr arbenigol perthnasol;
- Gwerth addysgol ffurfiol ac anffurfiol sy'n eglur ac wedi'i strwythuro.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus Llinyn 1 yn derbyn hyd at 75% o gost y prosiect, hyd at gap o £15,000 (beth bynnag yw'r swm isaf). Dylid nodi, fodd bynnag, mai o dan amgylchiadau arbennig yn unig y rhoddir y swm uchaf posib oherwydd bod yr adnoddau'n brin.

Llinyn 2 – Gwyliau o Arwyddocad Lleol/Rhanbarthol

Dylai gwyliau sy'n gwneud cais i'r gronfa hon fedru arddangos y meini prawf canlynol:

- Cyrhaeddiad arwyddocaol yn eu cymuned leol (gydag ystadegau cynulleidfa a dadansoddiad demograffig);
- Gwella mynediad i amrediad ehangach o ffilmiau ar gyfer y gymuned;
- Darparu rhaglen addysg ffurfiol a/neu anffurfiol i bob oed;
- Annog amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Gall ymgeiswyr llwyddiannus Llinyn 2 dderbyn hyd at 75% o gost y prosiect, hyd at gap o £5,000 (beth bynnag yw'r swm isaf).

Meini Prawf ar gyfer eu Hasesu

1. Bydd pob gŵyl yn cael ei hasesu ar ei rhinweddau ei hunan ac mewn cyd-destun, gyda golwg a yw'r digwyddiad yn un newydd, yn un sy'n datblygu neu'n un sydd wedi ei sefydlu, ac ar uchelgais yr Ŵyl ar gyfer y dyfodol.

2. Bydd y dull asesu yn ystyried ymarferoldeb yr ŵyl mewn perthynas â'r gyllideb a'r gwerth y pen/cost, yr amserlen, yr ariannu ac, yn achos gwyliau Llinyn 1, y cynllun busnes 3 blynedd.

3. Bydd yr Asiantaeth Ffilm hefyd yn asesu cyfraniad perthnasol y gwyliau i'r pedwar gwerth diwylliannol craidd canlynol.

1. Gwerth Diwylliannol i'r unigolyn, amrywiaeth y gynulleidfa a'r deunydd, gan	Rhoi pleser ac ysgogiad drwy ffilm, yn ei holl amrywiaeth, gan felly gyfoethogi bywyd unigolion, gan ddangos ffilmiau nad ydynt ar

gynnwys y defnydd o ffilmiau Archif.	gael fel arall. Gellir cyflawni hyn drwy'r dewis o raglenni, yr amgylchiadau arddangos, a thrwy gynnal digwyddiadau sy'n cyfoethogi'r profiad ffilm, fel Sesiynau Cwestiwn ac Ateb.
2. Gwerth Addysgol *	Gwella, ehangu a dwysau dealltwriaeth o'r byd a'i holl amrywiaethau, a'i hanes, i drigolion o bob oed, drwy lythrennedd ffilm. Gellir strwythuro addysg mewn dull ffurfiol, neu gellir ei gyflwyno'n gynhenid yn ystod yr ŵyl mewn nifer o ffurfiau.
3.Gwerth Cymdeithasol – Cymunedau. Adfywio Gweledig, Dwyieithrwydd, Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf	Gwella dealltwriaeth mewn a rhwng cymunedau, annog cyfranogiad gan bawb, a chyfoethogi bywyd y cymunedau hynny ledled Prydain. Gall hyn gynnwys gwahanol gymunedau'n gwylio a mwynhau ffilmiau na fyddent yn eu gweld yn arferol.
4. Gwerth Cynrychioladol	Cynrychioli Cymru ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, ac adeiladu partneriaethau gyda gwyliau a sefydliadau eraill.

- Sylwch os gwelwch yn dda, llinyn Cronfa Addysg ar wahân - gall gwyliau sydd â ffocws digonol ar lythrennedd ffilm wneud cais i hwn hefyd.

Canllawiau ariannu

Cymhwyster

Derbynnir ceisiadau am arian ar unrhyw amser ac unrhyw adeg o ddatblygiad y cais gan gwmnïau corfforedig (h.y. ddim unigolion) ac sy'n gweithredu ar sail nid-er-elw. Ble mae'n ddyddiau cynnar ar y cais, ond ei fod yn mynd i'r afael â, neu sy'n debygol o fynd i'r afael ag egwyddorion Bwriadau ac Amcanion yr Asiantaeth, byddwn yn fodlon cyd-weithio i ddatblygu'r cais hwnnw i'w hwyluso i gyrraedd ffurf y gellir, o bosib, ei ariannu.

Trefn Gwneud Cais

Dylai ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen gais gellir ei llawr lwytho o'r wefan, ac yna'i chyflwyno fel copi caled. Gellir hefyd gysylltu â'r Asiantaeth os byddai'n well gennych i'r copi caled gael ei yrru atoch chi. Derbynnir ceisiadau ar unrhyw adeg (h.y. ni fydd cylchoedd ariannu/dyddiad cau yn bodoli).

Penderfyniadau Ariannu

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Rheolwr Datblygu Cynulleidfa a'r Prif Weithredwr (gelwir ar y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ble fo hynny'n addas). Fel arfer bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u cyflwyno'n ysgrifenedig 4-6 wythnos o wneud y cais.

Ffurf nawdd yr Asiantaeth Ffilm fydd cymorth grant nad ellir ei adennill, yn amodol ar gytundeb ysgrifenedig rhwng yr Asiantaeth Ffilm a'r ymgeisydd, ac a fydd yn cael ei gynllunio'n arbennig ar gyfer yr amgylchiadau penodol. Nodwch, os gwelwch yn dda, y gall yr Asiantaeth Ffilm leihau neu dynnu'r arian yn ôl os digwydd newidiadau arwyddocaol i amgylchiadau'r arddangos a/neu i'r prosiect arfaethedig.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu os dymunwch drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â:

Dan Thomas
Rheolwr Datblygu Cynulleidfa
Asiantaeth Ffilm Cymru
33-35 Stryd Gorllewin Bute
Caerdydd
CF10 5LH
E-bost: daniel@filmagencywales.com